*Cyngor Cymuned Llanllwchaearn Community Council*
*Haulfan, Llanarth, Ceredigion. SA47 0NH*
*Clerc/Clerk: Shan Gwyn* *Phone/Ffon: 01545 580818*

**Cofnodion Cyfarfod 14.01.2021 - drwy 'Zoom'**

**Yn Bresennol**
Y Cynghorwyr Meleri Richards (Yn y gadair), Gill Hearne, Gareth Ioan, , Euros Lloyd a'r clerc.

**Ymddiheuriadau**
Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Silyn Roberts a Dai Morgan.

**Materion Personol**
Estynnwyd ein llongyfarchiadau i'r Cyng Gareth Lloyd a'r teulu ar enedigaeth mab bach yn ddiweddar.

**Cofnodion**
Cynigiwyd cofnodion mis Rhagfyr yn gywir gan y Cyng Gareth Ioan ac ategwyd hyn gan y Cyng Euros Lloyd.

**Materion yn Codi o'r Cofnodion**
*Cynllun mesur cyflymdra traffig* Mae 18 o drigolion Pentre'r Bryn wedi ymateb i'r holiadur ynglyn a gosod pafin yn y pentref. Roedd yna 14 ymateb ffafriol a phedwar wedi anghytuno gyda'r bwriad. Roedd rhai o'r ymatebion yn awgrymu bod angen lleihau'r cyfyngiad cyflymdra i 30 m.y.a. Mi fydd y clerc yn dosbarthu'r holiaduron eto i'r tai sydd ddim wedi ymateb mewn ymdrech i gael ymateb wrthynt. Cytunwyd y dylid gofyn i Swyddog o'r Cyngor Sir ddod i drafod y syniad o'r pafin ynghyd a sefydlu pwy fyddai yn gorfod talu'r costau o'r deilliaid yn rhoi tir. Penderfynwyd hefyd i ddilyn i fyny ar ein cais i'r cynllun 'Gam Bwyll' am reoli'r cyfyngiad cyflymdra presennol.

*Peiriant Adfywio Calonnau* Mae Pauline Bett bellach wedi ymweld a'r tri peiriant sydd yn ofal y Cyngor Cymuned ac wedi adrodd 'nôl eu bod i gyd bellach yn weidthredol. Cytunwyd i dalu'r anfoneb o £57.99 am y partiau i beiriant Maenygroes.

**Adroddiad Ariannol**
Derbyniwyd adroddiad ariannol mis Rhagfyr yn gywir a rhoddwyd caniatád i dalu £57.99 i 'Defib World' ynghyd a'r grantiau isod.

**Grantiau**
Penderfynwyd gwneud y cyfraniadau ariannol canlynol eleni:-

| | |
|---|---|
| Ysgol Bro Siôn Cwilt | £1,000.00 |
| Ffrindiau Ysgol Bro Siôn Cwilt | £1,000.00 |
| C.Ff.I Caerwedros | £ 100.00 |
| Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd | £ 100.00 |
| Beiciau Gwaed Cymru, Aberystwyth | £ 100.00 |
| Elusen Ambiwlans Awyr Cymru | £ 100.00 |

**Gohebiaeth**
*Cylch yr Iaith* Mi fydd y clerc yn dosbarthu'r ddogfen Cylch yr Iaith ynglyn a Chyflogaeth a Thwristiaeth yng Nghymru. Mae'r ddogfen yn cynnwys tystiolaeth ystadegol ynglyn a thwristiaeth, ac argymhellion ynghylch sut y gellid ei gwella er budd cymunedau.

**Ceisiadau Cynllunio**
A201063 Pensarnau, Cross Inn – Codi Sied ar gyfer gwartheg a'r gweithredoedd cysylltiedig – dim gwrthwynebiad.

**Unrhyw Fater Arall**
*Cynllun Dyfodol Gwledig – Cei Newydd* Cafwyd cyflwyniad oddi wrth Teresa Walters ar y cynllun uchod. Mae yna bosibilrwydd y gellid cynnwys y bwriad o greu map o deithiau cerdded yr ardal. Dyma'r cyflwyniad llawn:-

DGCeinewydd-RFNe
wQuay.Cyflwyniad-P